# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Hydref 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3454

# (289)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 2, 4 ac 8 gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd y 12 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 9 a 12 eu grwpio. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau – Deddfwriaeth orfodol i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 15.03

**NDM5838 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb, 'Deddfwriaeth orfodol i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.45

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a'r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5839 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad datganedig Llywodraeth y DU i gyflwyno model cadw pwerau ar gyfer datganoli drwy Fil Cymru newydd;

2. Yn ailddatgan ei gefnogaeth i ddatganoli yng Nghymru ar sail model cadw pwerau;

3. Yn gwrthod unrhyw fodel cadw pwerau sy'n dileu unrhyw bwerau sy'n arferadwy gan y Cynulliad o dan y trefniadau presennol;

4. Yn galw am greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru fel y fframwaith cyfreithiol mwyaf dymunol ac effeithiol i gyd-fynd â'r broses o weithredu'r model cadw pwerau ar gyfer datganoli; a

5. Yn galw am ddatganoli cyfiawnder troseddol a phlismona i gyd-fynd â chreu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 14 | 51 |

**Derbyniwyd y Cynnig heb ei ddiwygio.**

## 5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.42

**NDM5840 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi y gall problemau iechyd meddwl, heb gymorth a thriniaeth briodol, gael effaith ddinistriol ar ansawdd bywyd person, gan effeithio ar ei waith, ei fywyd cartref a'i berthnasau;

2. Yn croesawu diwrnod iechyd meddwl y byd, Amser i Newid Cymru, Gyda'n Gilydd Nawr! ac ymgyrchoedd eraill sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a rhoi terfyn ar stigma a gwahaniaethu;

3. Yn credu bod llawer i'w wneud o hyd er mwyn darparu gwell gofal a chymorth i bobl o bob oedran sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru; a

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi blaenoriaeth gyfartal i iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn y gyfraith i helpu i yrru newid diwylliannol mewn agweddau;

b) sicrhau bod y gyfran o gyllid ar gyfer iechyd meddwl o fewn cyllideb gyffredinol GIG Cymru yn gyson â'r baich clefydau, gan adlewyrchu maint cymharol yr her iechyd mewn perthynas ag iechyd corfforol;

c) cyflwyno safonau amseroedd aros newydd ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys ar gyfer mynediad at therapïau seicolegol;

d) gwella hyfforddiant iechyd meddwl i athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol a chyflogwyr er mwyn rhoi'r sgiliau iddynt adnabod a chefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl; ac

e) cyflwyno set graidd o ddata iechyd meddwl, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau gweithredu a sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.42

## 7 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.44

**NDM5837 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

Dyfodol adeiladau capeli yng Nghymru

Daeth y cyfarfod i ben am 18.07

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Hydref 2015**